

# Cwestiynau cyffredin ynglŷn â phreifatrwydd ap COVID-19 y GIG

Adeiladwyd ap COVID-19 y GIG ar egwyddor o **'Breifatrwydd drwy ddyluniad'** sydd yn golygu bod eich preifatrwydd a'ch diogelwch yn greiddiol i'r ap.

Dewch i wybod mwy ynglŷn â sut mae'r ap yn diogelu eich data a'ch preifatrwydd.



Ewch i [www.covid19.nhs.uk](http://www.covid19.nhs.uk) i gael gwybod rhagor am ap COVID -19 y GIG neu i weld yr Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA)

## Pa data bydd yr ap yn ei gadw?

Mae'r ap yn casglu'r wybodaeth ganlynol ac yn ei chadw ar eich ffôn:

- Ardal cod post byddwch yn ei roi wrth osod yr ap ar eich ffôn, dyma ran gyntaf eich cod post cyn y bwllch
- Gwybodaeth symptomau byddwch yn ei roi mewn i'r ap
- Codau poster QR y lleoliadau fyddwch chi'n eu sganio mewn ir ap

Gallwch weld yr holl data sy'n cael ei gadw amdanoch chi a gallwch ei ddileu ar unrhyw adeg.

## Sut alla i fod yn sicr fod fy nata yn ddiogel?

Cafodd yr ap ei ddylunio gan ddefnyddio technoleg Google ac Apple i ddefnyddio cyn lleied o data a gwybodaeth bersonol â phosib. Mae'r holl data a allai eich adnabod yn uniongyrchol wedi ei gadw ar eich ffôn a heb ei rannu unrhyw le arall. Bydd unrhyw data a ddaw o'ch ffôn yn cael ei wneud yn anhysbys bobo tro er mwyn ein hatal ni ac unrhyw un arall rhag eich adnabod chithau neu unrhyw un arall.

Mae'r ap yn defnyddio dulliau adnabod unigryw ac ar hap ar gyfer olrhain cysylltiadau. Mae'r codau hyn yn cael eu rhannu rhwng ffonau defnyddwyr eraill yr ap ac maen nhw'n newid bob 15 munud. Pan fyddan nhw'n cael eu rhannu, bydd y codau hyn yn aros ar y ffonau am 14 diwrnod sef hyd cyfnod deor coronafeirws. Does dim modd i ddefnyddiwr arall o'r ap eich adnabod o'r cod hwn.

## Pa data gaiff ei rannu tu allan i'r ap?

Drwy ddefnyddio'r ap, caiff data dadansoddiadau ei gasglu sydd yn helpu ni i ddysgu mwy am y feirws a sut allwn ni ddatblygu ein hymatebion iechyd cyhoeddus. Er enghraifft, gallwn gyfrifo'r nifer o bobl a archebodd brawf drwy'r data a gasglwyd, pan fyddwch yn dewis yr opsiwn i 'archebu prawf' ar yr ap. Drwy rannu gwybodaeth ynglŷn â'ch symptomau gyda'r ap, gallwn ddysgu mwy ynglŷn â'r lleoliadau lle mae symptomau'n datblygu.

Mae'r holl data dadansoddiadau yn anhysbys ac ni ellir ei gysylltu yn ôl i chi mewn unrhyw fodd. Drwy ddefnyddio'r ap, byddwch yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at gefnogi'r GIG a'n helpu i ennill y frwydr yn erbyn coronafeirws.

## Pam fod ap COVID-19 y GIG yn gofyn am fy ardal cod post?

Dim ond eich ardal cod post chithau fydd yr ap yn ei ddefnyddio. Dyma rhan gyntaf eich cod post hyd at y bwllch. Er enghraifft, "PE12". Ni fydd yn rhoi union leoliad lle'r ydych yn byw.

Mae angen eich cod post arnom i helpu'r GIG:

- Dysgu mwy am effaith coronafeirws (COVID-19) ar y cyhoedd, cymunedau a gwasanaethau lleol
- Monitro effeithiolrwydd yr ap
- Rhagweld a rheoli'r galw ar wasanaethau ysbytai lleol
- Rhoi cyngor teilwredig i bobl a defnyddwyr yr ap sy'n byw o fewn ardal risg coronafeirws uchel



## Pa data sy'n cael ei storio wrth mewngofnodi lleoliad?

Os byddwch yn dewis defnyddio'r swyddogaeth mewngofnodi lleoliad, bydd eich ffôn ond yn cadw data ynglŷn â ble a phryd wnaethoch chi mewngofnodi ac am faint o'r gloch. Bydd hyn yn eich helpu i'ch atgoffa ble fuoch chi, pe bae swyddog olrhain GIG yn dod i gyswllt â chi. Caiff y data ei gadw am 21 diwrnod a gallwch adolygu neu ddileu'r data hwn unrhyw bryd. Mae hyn yn golygu y gallwch ddileu pob lleoliad neu unrhyw leoliad penodol o'ch dewis.

## Oes modd fy adnabod os byddaf yn rhannu fy nata?

Dyw ap COVID-19 y GIG ddim yn dal unrhyw wybodaeth a allai eich adnabod yn uniongyrchol, er enghraifft, eich enw, cyfeiriad neu ddyddiad geni ac mae'n cydymffurfio'n llwyr gyda Chyfraith Diogelu Data.

Pe baech yn profi'n bositif am coronafeirws ac yn penderfynu rhannu'r wybodaeth hon gyda'r ap er mwyn rhybuddio pobl eraill, defnyddir dulliau adnabod ar hap ac unigryw fel rhan o'r dechnoleg olrhain cysylltiadau. Does dim data personol yn cael ei rannu rhwng eich ffôn a ffôn unrhyw un arall.

Er na ellir eich adnabod drwy'r data a rannwch na'r data a gedwir ar eich ffôn, fe allai pobl eraill, mewn rhai amgylchiadau annhebygol, weithio allan mai chi oedd y person a brofodd yn bositif am y feirws pan fyddan nhw'n derbyn rhybudd. Er enghraifft, pe bai defnyddiwr ap wedi bod mewn cyswllt gyda chithau a neb arall am 14 diwrnod cyn derbyn y rhybudd. Fodd bynnag, gallai hyn ddigwydd hefyd gyda'r olrhain cysylltiadau a gaiff ei gynnal gan wasanaethau iechyd cyhoeddus, hyd yn oed pe na baech chi'n defnyddio'r ap. Ni all yr ap rannu na danfon unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch, pan fydd yn danfon rhybuddion.

## Pam fod angen i ap COVID-19 y GIG gael caniatâd i gael mynediad at fy nghamera?

Mae'r ap yn defnyddio eich camera i ddarllen cod QR y GIG, gellir dod o hyd iddo ar bosteri yn y lleoliadau y byddwch yn ymweld â nhw. Unwaith i chi fewngofnodi, caiff yr amser, dyddiad a'r lleoliad ei gadw ar eich ffôn. Caiff mynediad at y camera ei ddileu ar unwaith wedi hynny. Ni all yr ap gael mynediad at unrhyw luniau ar eich ffôn.

## Ydw i'n gallu dileu'r ap?

Galwch ddileu'r ap ar unrhyw adeg. Bydd hyn hefyd yn dileu yr holl data a gaiff ei storio ar yr ap. Os byddwch yn dewis dileu'r ap, ni fyddwch yn cael rhybuddion cysylltiad a hysbysiadau.

Mae'r rhybuddion hyn yn rhoi gwybod i chi os ydych chi mewn perygl o gael eich heintio gan coronafeirws. Mae'r ap yn gweithio yn ategol i'r olrhain cyswllt rheolaidd sydd eisoes yn cael ei gynnal drwy Gymru a Lloegr.

Os nad ydych chi am ddefnyddio'r ap mwyach, bydd swyddogion olrhain cysylltiad yn dod i gyswllt pe byddwch chi wedi bod mewn cyswllt â rhywun sydd wedi ei heintio gyda'r feirws. Fodd bynnag, yr ap yw'r ffordd cyflymaf o weld a ydych chi mewn perygl eu beidio, a gorau po gyntaf y gwyddoch, er mwyn i chi allu rhybuddio ac amddiffyn eich anwyliaid. Mae'r ap hefyd yn gwneud y gwaith o 'gofio' drosoch chi, gan ddefnyddio technoleg olrhain cysylltiad, bydd yr ap yn cofio defnyddwyr eraill yr ap fu'n agos atoch chi am 15 munud neu fwy am bellter o 2 fetr neu lai, fel na fydd rhaid i chi.

## Am faint gaiff fy nata olrhain cysylltiad ei gadw?

Bydd ap COVID-19 y GIG yn cadw cofnod o data olrhain cysylltiad anhysbys am fwyafswm o 14 diwrnod (hynny yw, uchafswm y cyfnod byddai heintiad gyda'r feirws yn debygol o ddeor).

Caiff gwybodaeth mewngofnodi lleoliad ei gadw am 21 diwrnod. Mae hyn yn cymryd y cyfnod deor 14 diwrnod yn ogystal â 7 diwrnod ychwanegol i ystyriaeth. Bydd hyn yn caniatáu amser i dimoedd Diogelu Iechyd i orffen unrhyw archwiliad i frigiad o achosion.

Mae'r ap yn dileu data olrhain cysylltiad a data mewngofnodi lleoliad yn awtomatig wedi i'r cyfnodau hyn ddod i ben.

Ewch i [www.covid19.nhs.uk](http://www.covid19.nhs.uk) i gael gwybod rhagor am ap COVID -19 y GIG neu i weld yr Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA)

